AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

RHEOLAU SEFYDLOG

MYNEGAI

1. Cyfarfodydd yr Awdurdod
2. Cyfarfodydd Pwyllgorau
3. Cworwm
4. Trefn Busnes
5. Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd
6. Cofnodion
7. Cynigion
8. Cwestiynau
9. Cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad
10. Presenoldeb mewn Cyfarfodydd Pwyllgorau
11. Cyfeirio Penderfyniadau
12. Rheolau Trafodaeth
13. Iaith Trafodaeth
14. Pleidleisio
15. Ymddygiad Afreolus - Aelodau
16. Aflonyddwch - Aelodau o'r Cyhoedd
17. Canfasio a Rhoi Geirda
18. Perthnasau Aelodau neu Weithwyr
19. Penodi Swyddogion
20. Diddordeb Aelodau mewn Contractau neu Faterion Eraill
21. Sêl yr Awdurdod
22. Cyfrinachedd
23. Atal Rheolau Sefydlog
24. Dileu ac Amrywio Rheolau Sefydlog
25. Dehongli Rheolau Sefydlog

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
RHEOLAU SEFYDLOG

1.0 CYFARFODYDD YR AWDURDOD

1.1 Nifer o Gyfarfodydd

Yn ychwanegol at y Cyfarfod Blynyddol, dylai'r Awdurdod gynnal tri chyfarfod arall o leiaf bob blwyddyn ar gyfer trafod busnes cyffredinol.

1.2 Dyddiad y Cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd mewn ysbeidiau mor rheolaidd â phosib ar ddyddiadau i'w pennu gan yr Awdurdod. Gall Swyddog y Parc Cenedlaethol mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd newid dyddiad unrhyw gyfarfod os, ym marn y Cadeirydd, bod angen y fath newid er mwyn hwylustod neu i gyflawni busnes yr Awdurdod yn effeithlon.

1.3 Dyddiad y Cyfarfod Blynyddol

Y cyfarfod cyntaf a gynhelir ar ôl 31ain Mai ym mhob blwyddyn fydd y Cyfarfod Blynyddol.

1.4 GALW CYFARFODYDD O'R AWDURDOD

(1) Gall Cadeirydd yr Awdurdod neu, os yw swydd y Cadeirydd yn wag, gall yr Is-Gadeirydd alw Cyfarfod Arbennig ar unrhyw adeg.

(2) Os yw swyddi y Cadeirydd a'r Is-Gadeiryddion yn wag, gall Swyddog y Parc Cenedlaethol o'r Awdurdod alw cyfarfod arbennig o'r Awdurdod ar unrhyw adeg.

(3) Os yw'r Cadeirydd, neu'r Is-Gadeirydd, os yw swydd y Cadeirydd yn wag, neu Swyddog y Parc Cenedlaethol os yw'r holl swyddi yn wag yn gwrthod galw cyfarfod o'r Awdurdod wedi ymofyniad i'r perwyl hwnnw, gan fanylu natur y busnes pwysig neu frys, wedi'i arwyddo gan bum Aelod o'r Awdurdod, wedi cael ei gyflwyno iddo, neu os, heb wrthod hynny, nad yw'r Cadeirydd neu, sut bynnag fo'r sefyllfa ar y pryd, yr Is-Gadeirydd, neu'r Swyddog Parc Cenedlaethol ddim yn galw cyfarfod o fewn saith niwrnod wedi i ymofyniad o'r fath gael ei gyflwyno iddo, yna gall unrhyw bum Aelod o'r Awdurdod wedi'r gwrthodiad hwnnw, neu wedi i'r saith niwrnod ddod i ben, sut bynnag fo'r sefyllfa ar y pryd, alw cyfarfod arbennig o'r Awdurdod.

1.5 Amser Cyfarfodydd

Bydd cyfarfodydd fel arfer yn cychwyn am 10.00 y bore. Gall Swyddog y Parc Cenedlaethol mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd newid amser unrhyw gyfarfod os, ym marn y Cadeirydd, bod angen y fath newid er mwyn hwylustod neu i gyflawni busnes yr Awdurdod yn effeithlon.

1.6 Gwŷs i Gyfarfodydd

(1) Bydd Swyddog y Parc Cenedlaethol yn cyhoeddi gwŷs ar gyfer unrhyw gyfarfod nid llai na thri diwrnod cyfan cyn y cyfarfod hwnnw.

(2) Bydd gwŷs ar gyfer Cyfarfod Arbennig yn gosod allan yr holl fusnes a drafodir yn y cyfarfod hwnnw.

(3) Ni fydd methu â chyhoeddi gwŷs ar unrhyw Aelod o'r Awdurdod yn amharu ar ddilysrwydd y cyfarfod hwnnw.

2.0 CYFARFODYDD PWYLLGORAU

2.1 Penodi Pwyllgorau

Bydd yr Awdurdod yn penodi Pwyllgorau Sefydlog o'r fath yn ei Gyfarfod Blynyddol bob blwyddyn, a gall benodi Pwyllgorau, Gweithgorau neu Baneli eraill o'r fath ar unrhyw adeg fel sy'n briodol er mwyn cyflawni gwaith yr Awdurdod.

2.2 Bydd y dyraniad o Aelodau i'r Awdurdod sy'n aelod o Bwyllgorau, Is-Bwyllgorau, Gweithgorau neu Baneli rhwng aelodau awdurdodau lleol ac Aelodau Cynulliad Cymru yr un faint a'r dyraniad o aelodau o'r Awdurdod (cyn belled â bo hynny'n bosibl gan ddefnyddio rhifau cyflawn) .

2.3 Galw Cyfarfodydd Pwyllgor

Yn union wedi'r Cyfarfod Blynyddol bydd yr Awdurdod yn galw cyfarfod o bob Pwyllgor sefydlog benodwyd ganddo ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ymysg aelodaeth y Pwyllgor.

2.4 Gwysir holl gyfarfodydd Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau gan Swyddog y Parc Cenedlaethol.

2.5 Gall Cadeirydd y Pwyllgor, Cadeirydd yr Awdurdod neu Swyddog y Parc Cenedlaethol alw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ar unrhyw adeg. Gelwir cyfarfod arbennig ar ymofyniad gan dreuan o gyfanswm nifer aelodaeth y Pwyllgor a ddanfonir yn ysgrifenedig i Swyddog y Parc Cenedlaethol ond ni chaiff llai na thri Aelod alw cyfarfod arbennig dan unrhyw amgylchiadau. Bydd y gwŷs i'r cyfarfod arbennig yn rhoi manylion y busnes i'w drafod yno.

2.6 Bydd Swyddog y Parc Cenedlaethol yn cyflwyno gwys ar gyfer unrhyw gyfarfod ddim llai na thri diwrnod clir cyn y cyfarfod perthnasol.

Ni fydd methu cyhoeddi gwys ar unrhyw Aelod o'r Pwyllgor yn effeithio dilysrwydd y cyfarfod hwnnw.

3.0 CWORWM

3.1 Ni chaiff unrhyw fusnes ei drin mewn cyfarfod o'r Awdurdod neu Bwyllgor heblaw'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad oni bai fod o leiaf traean o nifer cyfan o Aelodau'r Awdurdod neu'r Pwyllgor yn bresennol. Bydd y cworwm yn cynnwys o leiaf dau Aelod Awdurdod Lleol ac o leiaf un Aelod a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

3.2 Ni ddylai unrhyw fusnes gael ei drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad oni bai fod o leiaf hanner cyfanswm nifer aelodau'r pwyllgor, wedi ei dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, yn bresennol. Ni ddylai'r Awdurdod benodi aelod arall o blith ei aelodau i weithredu fel aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad yn absenoldeb yr aelod a benodir yn unol â Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad 2017 Pwyllgorau Awdurdod Cynllunio Lleol (Cymru).

3.3 Petai mwy nag un rhan o dair o'r aelodaeth yn cael eu gwahardd bydd y cworwm yn cael ei bennu drwy gyfeirio at nifer cyfan yr Aelodau sy'n weddill ac sy'n gymwys yn hytrach na thrwy gyfeirio at nifer cyfan o Aelodau'r Awdurdod neu'r Pwyllgor.

3.4 Os, yn ystod unrhyw gyfarfod o'r Awdurdod neu Bwyllgor y bydd y Cadeirydd ar ôl cyfrif y nifer sy'n bresennol yn datgan nad oes cworwm yn bresennol bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio (yn ddarostyngedig i 3.6).

3.5 Bydd raid gohirio ystyried unrhyw fater sydd heb gael ei drafod ar gyfer:

(1) Dyddiad ac amser a bennir gan y Cadeirydd ar yr adeg pan gafodd y cyfarfod ei ohirio; ac yn ddiofyn.

(2) Dyddiad ac amser a bennir gan Swyddog y Parc Cenedlaethol mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd.

3.6 Wrth gymhwyso'r rheol sefydlog hon i unrhyw Bwyllgor, fe all cyfarfod barhau yn ôl doethineb y Cadeirydd ar yr amod na all unrhyw weithred gael eu cymryd ar unrhyw benderfyniad heb gyflwyno'r penderfyniad i gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor, neu i gyfarfod o'r Awdurdod i'w gadarnhau a bydd absenoldeb cworwm yn cael ei nodi yn y cofnodion.

4.0 **TREFN BUSNES**

4.1 Yn amodol i baragraffau 4.4 a 4.5, bydd trefn busnes pob cyfarfod o'r Awdurdod fel a ganlyn:

(1) Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yng Nghyfarfod Blynyddol yr Awdurdod.

(2) Dewis person i lywyddu os yw'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd yn absennol.

(3) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.

(4) Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

(5) Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog.

(6) Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a'u harwyddo fel cofnod cywir.

(7) Ystyried unrhyw fusnes sy'n statudol ofynnol.

(8) Ystyried unrhyw fusnes na chafodd ei drafod yn y cyfarfod diwethaf.

(9) Ystyried cynigion yn y drefn y daeth rhybuddion ar eu cyfer i law.

(10) Ateb cwestiynau lle derbyniwyd rhybudd ar eu cyfer neu lle cafodd rhybudd ei hepgor gyda chaniatâd y Cadeirydd.

(11) Unrhyw fusnes arall fel a fanylir yn y wþs.

(12) Unrhyw fusnes, heb ei nodi yn y wþs, a ystyrir gan y Cadeirydd i fod yn frys. Bydd natur y brys yn cael ei nodi yng nghofnodion y cyfarfod.

4.2 Bydd trefn busnes pob cyfarfod Pwyllgor yn cael ei osod allan yn 4.1 heblaw am:

(1) Bydd Paragraff 4.1(1) yn cyfeirio at gyfarfod cyntaf y Pwyllgor yn dilyn cyfarfod blynyddol yr Awdurdod.

(2) Bydd Paragraff 4.1(8) yn cyfeirio at rybuddion cynigion a gyfeiriwyd i'r Pwyllgor gan gyfarfod o'r Awdurdod.

4.3 Nid fydd trefn y busnes a ddaw o dan 4.1 (1), (2) (3) neu (4) yn cael ei disodli.

4.4 Mewn cyfarfod arbennig o'r Awdurdod, ni fydd trefn y busnes a ddaw o dan 4.1 (2), (3) a (4) yn cael ei disodli. Bydd unrhyw fusnes arall yn union fel a osodir arall yn y wþs ac ni thrafodir unrhyw fusnes arall.

4.5 Yn amodol i Baragraffau 4.3 a 4.4, gellir amrywio trefn unrhyw fusnes arall trwy:

(1) Gyfarwyddyd y Cadeirydd gyda chaniatâd unfrydol yr Aelodau sy'n bresennol; neu
(2) Trwy benderfyniad a gymerir ar fater wedi'i gynnig, ei eilio a'i roi gerbron heb drafodaeth.

5.0 **PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

5.1 Yng nghyfarfod blynyddol yr Awdurdod ac yng nghyfarfod cyntaf pob Pwyllgor ac mewn unrhyw gyfarfod arall os daw swydd y Cadeirydd yn wag, y busnes cyntaf fydd ethol Cadeirydd yn unol â Gorchymyn Sefydlog 14.6.

5.2 Enwebir Aelodau i Gadeiryddiaeth ac Is Gadeiryddiaeth yr Awdurdod a Phwyllgorau trwy gyflwyno enwebiad wedi ei arwyddo gan Aelod o'r Awdurdod i Swyddog y Parc Cenedlaethol cyn 17:00 ar y diwrnod gwaith diwethaf cyn diwrnod y cyfarfod. Os na cheir unrhyw enwebiadau yna bydd yr enwebiad yn cymeryd lle yn y cyfarfod ac os ceir eilydd i'r cynnig yna bydd pleidlais yn cael ei chymeryd yn unol â Rheol Sefydlog 14.6.

5.3 Bydd yr Awdurdod neu'r Pwyllgor yn penodi Is-Gadeirydd yn yr un modd.

5.4 Mewn cyfarfod o'r Awdurdod, Pwyllgor neu Is-Bwyllgor, y Cadeirydd, os yw'n bresennol, fydd yn llywyddu.

5.5 Os yw'r Cadeirydd yn absennol o gyfarfod o'r Awdurdod, Pwyllgor neu Is-Bwyllgor yr Is-Gadeirydd fydd yn llywyddu, os yw'n bresennol.

5.6 Os yw'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn absennol bydd yr Aelodau yn penodi person o blith yr Aelodau sy'n bresennol i lywyddu.

5.7 Bydd Swyddog Priodol yr Awdurdod yn llywyddu yn ystod unrhyw gyfarfod pryd y penodi'r Cadeirydd ble mae penodiad o'r fath yn ofynnol.

5.8 Ni chaiff unrhyw aelod fod yn Gadeirydd neu Is Gadeirydd mwy nag un Pwyllgor.

Nid yw'r paragraff hwn yn rhwystro Aelod sy'n Gadeirydd neu'n Is-Gadeirydd o Bwyllgor rhag cadeirio Pwyllgor arall yn absenoldeb ei Gadeirydd neu Is-Gadeirydd.

5.9 Nid yw paragraffau 5.2 a 5.8 yn berthnasol i Is-bwyllgorau, Paneli na Gweithgorau.

6.0 COFNODION

6.1 Mewn cyfarfod o'r Awdurdod neu unrhyw Bwyllgor lle cyflwynir cofnodion cyfarfod blaenorol am gymeradwyaeth, bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cymeradwyo'r cyfryw gofnodion.

6.2 Bydd unrhyw gynigion mewn perthynas â chywirdeb y cofnodion yn cael eu gwneud trwy welliant. Ni ddylid gwneud unrhyw gynigion eraill ar y cofnodion, heblaw i ofyn am ac i dderbyn gwybodaeth ar unrhyw eitem ar y cofnodion.

6.3 Cyn gynted ag y derbynnir y cynnig mewn perthynas â chywirdeb y cofnodion bydd y Cadeirydd yn arwyddo'r cyfryw gofnodion.

6.4 Cyflwynir cofnodion pob Pwyllgor i'r Awdurdod i'w mabwysiadu neu er gwybodaeth, fel y bo'n briodol. Lle cyflwynir cofnodion Pwyllgor i'r Awdurdod i'w mabwysiadu, gall yr Awdurdod eu mabwysiadu neu gall gyrraedd penderfyniad gwahanol ar unrhyw fater neu ofyn i'r Pwyllgor ystyried y mater ymhellach. Yn yr un modd, cyflwynir cofnodion pob Is-Bwyllgor i'r Pwyllgor i'w mabwysiadu neu er gwybodaeth, fel y bo'n briodol.

6.5 Er gwaethaf cynnwys unrhyw beth mewn unrhyw ymddeddfiad neu reol cyfraith i'r gwrthwyneb, gellir cofnodi hynt cyfarfodydd o'r Awdurdod ar dudalennau rhydd sydd wedi cael eu rhifo yn ôl dilyniant, arwyddir cofnodion pob cyfarfod, a bydd pob tudalen sy'n cynnwys y cofnodion hynny yn cael eu llofnodi, yr un pryd neu yn ystod y cyfarfod addas nesaf o'r Awdurdod, gan y person sy'n llywyddu ynddo, a bydd pob cofnod a lofnodir yn y modd hwn yn cael ei dderbyn fel tystiolaeth heb fod yr angen am ragor o dystiolaeth.

6.6 Nid yw'r Gorchymyn Sefydlog hwn yn berthnasol i Baneli neu Weithgorau lle dylid cyflwyno cofnod o'r trafodion ar ffurf adroddiad i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor priodol.

7.0 CYNIGION

7.1 Rhybudd o Gynigion

Gall unrhyw Aelod o'r Awdurdod roi rhybudd o nid mwy nag un cynnig i'w ystyried mewn unrhyw gyfarfod o'r Awdurdod.

7.2 Rhybudd i fod yn Ysgrifenedig

Yn amodol i baragraff 7.7, rhaid rhoi pob cynnig sydd i'w ystyried gan yr Awdurdod mewn ysgrifen, wedi'i arwyddo gan yr Aelod neu'r Aelodau sy'n rhoi'r rhybudd a'i anfon o leiaf 14 diwrnod cyn dyddiad cyfarfod nesaf yr Awdurdod i swyddfa Swyddog y Parc Cenedlaethol. Ar ei dderbyn dylid ei ddyddio a'i rifo yn y drefn y cafodd ei dderbyn a bydd cofnod ohono ar gael i'w archwilio gan bob Aelod o'r Awdurdod.

7.3 **Cynigion i'w gosod allan yn y Wys**

Bydd Swyddog y Parc Cenedlaethol yn gosod allan yng Ngwŷs pob cyfarfod o'r Awdurdod yr holl gynigion lle derbyniwyd rhybuddion ar eu cyfer yn y drefn y cawsant eu derbyn oni bai fod yr Aelod, pan yn cyflwyno'r fath rybudd, wedi nodi'n ysgrifenedig ei fod ef/hi yn bwriadu cynnig arno mewn cyfarfod rywbryd eto neu wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig ers hynny.

7.4 **Cyfeirio i Bwyllgor**

Os daw pwnc trafod unrhyw gynnig o dan faes llafur unrhyw Bwyllgor bydd, ar ôl ei gynnig a'i eilio, yn cael ei gyfeirio i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwnnw. Bydd y Pwyllgor hwnnw yn ei ystyried yn ei gyfarfod nesaf ac yn adrodd arno i gyfarfod nesaf yr Awdurdod. Yn amodol, fodd bynnag, ar fod y Cadeirydd o'r farn y byddai'n hwylus neu o fudd i gyflawni busnes yn effeithlon, gall y Cadeirydd ganiatáu ystyried y cynnig yn y cyfarfod lle cafodd ei gynnig yn hytrach na'i gyfeirio i Bwyllgor.

7.5 **Sgôp y Cynnig**

Bydd pob cynnig yn berthnasol i fater neilltuol mewn perthynas â'r hwn y mae gan yr Awdurdod bwerau neu ddyletswyddau neu sydd fel arall yn effeithio ar Barc Cenedlaethol Eryri.

7.6 **Rhybudd o Gyfarfod**

Bydd Aelod sydd wedi gwneud cynnig a gyfeiriwyd i unrhyw Bwyllgor yn derbyn rhybudd o gyfarfod y Pwyllgor lle bwriedir ystyried y cyfryw gynnig a gall fynychu'r Pwyllgor er mwyn egluro'r cynnig ond nid i bleidleisio oni bai fod ef/hi yn Aelod o'r Pwyllgor hwnnw.

7.7 Gellir gwneud y cynigion canlynol heb rybudd:

(1) Penodi Cadeirydd neu Is-Gadeirydd

(2) Cynigion yn ymwneud â chywirdeb y cofnodion

(3) Cofnodion yn ymwneud â threfn y busnes ar y rhaglen

(4) Rhoi caniatâd i dynnu cynnig yn ôl

(5) Ymestyn yr amser a roddir i wneud anerchiad

(6) Gwelliannau i gynigion

(7) Bod y cyfarfod yn symud ymlaen i'r eitem fusnes nesaf

(8) Bod y drafodaeth yn cael ei gohirio

(9) Bod y cyfarfod yn cael ei ohirio

(10) Bod Rheolau Sefydlog yn cael eu hatal

(11) Bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu cau allan

(12) I beidio â gwrando mwyach ar Aelod a enwir neu ei fod ef/hi yn gadael y cyfarfod

(13) Bod caniatâd yn cael ei roi, lle bo Gorchymyn Sefydlog yn gofyn rhoi y fath ganiatâd.

7.8 **Cynigion yn Effeithio ar Swyddogion**
Os cyfyd cwestiwn ynglþn â phenodi, dyrchafu, diswyddo, cyflog, blwydd-dal, amodau gwasanaeth neu ymddygiad unrhyw swyddog, neu lle mae person yn cael ei gyfweld ar gyfer penodiad gyda'r Awdurdod, bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd ar unwaith.

8.0 CWESTIYNAU FFURFIOL

8.1 Yn ystod cyfarfod o'r Awdurdod gall Aelod ofyn i Gadeirydd yr Awdurdod neu unrhyw un o'i Bwyllgorau gwestiwn ynghylch busnes yr Awdurdod neu'r Pwyllgor dan sylw.

8.2 Mae'n rhaid derbyn rhybudd ysgrifenedig o'r cwestiwn yn swyddfa Swyddog y Parc Cenedlaethol nid hwyrach na 4.30 p.m. ar y diwrnod cyn cyfarfod yr Awdurdod. A derbyn hyn, fodd bynnag, gellir gofyn cwestiwn mewn perthynas â busnes brys heb rybudd ysgrifenedig ymlaen llaw ond gyda chaniatâd y Cadeirydd a rhaid cyflwyno copi ysgrifenedig o'r cwestiwn cyn gynted â phosib i Swyddog y Parc Cenedlaethol.

8.3 Lle mae'r wybodaeth a ofynnir wedi'i chynnwys mewn unrhyw un o gyhoeddiadau'r Awdurdod, bydd yn ateb digonol os enwir y cyhoeddiad hwnnw.

8.4 Os nad oes modd rhoi ateb yn hwylus, bydd yn ateb digonol os caiff yr ateb ei gylchredeg i aelodau gyda chofnodion y cyfarfod lle gofynnwyd y cwestiwn.

8.5 Gofynnir pob cwestiwn a'i ateb heb drafodaeth ond mae gan yr holwr hawl i ofyn un cwestiwn atodol.

8.6 Ni chaiff unrhyw Aelod ofyn mwy na dau gwestiwn (heblaw'r cwestiynau atodol) yn ystod cyfarfod.

9.0 CYFARFODYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD

9.1 Gall aelod a benodwyd o'r newydd ar yr Awdurdod eistedd a gwrando mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ond ni chaniateir iddo ef / hi fel arall gymryd unrhyw ran yn y broses o wneud penderfyniad yn y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad nes bydd yr Aelod wedi mynychu cwrs hyfforddiant Cynllunio yn unol â'r hyn a gymeradwyir o bryd i'w gilydd gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol.

9.2 Mae'n rhaid i holl aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ymgymryd â hyfforddiant diweddaru yn unol â'r hyn a gymeradwyir o bryd i'w gilydd gan y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.

10.0 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD PWYLLGORAU

10.1 Caiff Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod fynychu a siarad (ond ni chant bleidleisio) mewn cyfarfod o Bwyllgor neu Weithgor Aelodau lle nad ydynt yn aelodau sydd â'r hawl i bleidleisio yno.

10.2 Caiff Aelod o'r Awdurdod fynychu a siarad (ond ni chant bleidleisio) mewn cyfarfod o Bwyllgor neu Weithgor Aelodau lle nad ydynt yn aelodau sydd â'r hawl i bleidleisio yno os yw'r Cadeirydd yn penderfynu hynny neu, os yw'r Cadeirydd yn penderfynu mai mater i'r Pwyllgor ei benderfynu yw hyn, bod y Pwyllgor yn penderfynu y caiff yr Aelod o'r Awdurdod wneud hynny.

10.3 Ar bob adeg arall fe gaiff Aelod o'r Awdurdod, pan nad oes ganddo/i fel arall yr hawl i fynychu a siarad mewn Pwyllgor fynychu fel Aelod o'r Awdurdod ond ni chaiff siarad.

11.0 CYFEIRIO PENDERFYNIADAU

11.1 Gellir cyfeirio unrhyw fater sydd o fewn y pwerau a ddirprwywyd i Bwyllgor gan yr Awdurdod o'r Pwyllgor hwnnw i'r Awdurdod i'w benderfynu.

11.2 Gall Cadeirydd y Pwyllgor dan sylw, Swyddog y Parc Cenedlaethol neu ei gynrychiolydd yn y cyfarfod, y Swyddog Monitro neu'r Prif Swyddog Cyllid ymarfer y pŵer i gyfeirio o dan baragraff (1).

11.3 Gellir ymarfer y pŵer i gyfeirio o dan baragraff (1) pa un ai yw'r Pwyllgor wedi cyrraedd penderfyniad ar y mater ai peidio heblaw, yn achos y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, mewn perthynas â materion yn ymwneud â phenodi aelod unigol o Staff lle na fydd unrhyw bŵer i gyfeirio.

11.4 Wrth ddehongli'r Gorchymyn Sefydlog hwn ar gyfer Is-Bwyllgorau

(1) dylai cyfeiriad at Bwyllgor fod at Is-Bwyllgor a chyfeiriad at yr Awdurdod fod at y Pwyllgor priodol

(2) bydd cyfeiriad at y "Cadeirydd" yn un at unrhyw berson sy'n llywyddu yn y cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd.

12.0 RHEOLAU TRAFODAETH

12.1 **Trafod Cynnig neu Welliant**
Ni thrafodir cynnig oni bai ei fod wedi'i gynnig a'i eilio.

12.2 **Anerchiad yr Eilydd**
Gall Aelod, pan yn eilio rhybudd neu welliant, ymatal rhag siarad tan yn ddiweddarach yn y drafodaeth.

12.3 **Aelod yn Siarad**
Bydd Aelod pan yn siarad yn annerch y Cadeirydd. Os bydd mwy na dau Aelod am siarad, bydd y Cadeirydd yn galw ar i un siarad. Pan fo Aelod yn siarad bydd yr Aelodau eraill yn cadw'n dawel heblaw i godi mater o drefn neu i roi eglurhad personol.

12.4 **Hyd yr Anerchiad**
Nid yw r'un anerchiad i fod yn hwy na phum munud heblaw gyda chaniatâd y cyfarfod.

12.5 **Siarad fwy nag Unwaith**
Nid yw Aelod i annerch y cyfarfod fwy nag unwaith ar unrhyw gynnig neu welliant heblaw i siarad:

(1) Ar fater o drefn

(2) I egluro rhan bwysig o'r anerchiad sydd ym marn yr Aelod wedi'i chamddeall.

(3) Unwaith ar welliant sydd wedi'i wneud gan Aelod arall

(4) Os gwnaed gwelliant ar y cynnig ers i'r Aelod siarad ddiwethaf, gall gynnig gwelliant pellach.

12.6 **Gwelliannau i fod yn berthnasol**
Mae'n rhaid i welliant fod yn berthnasol i'r cynnig ac er mwyn:

(1) Cyfeirio pwnc trafod i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor am ystyriaeth

(2) Hepgor, ychwanegu neu fewnosod geiriau o, at neu yn y cynnig (ond nid fel ei fod yn dirymu'r cynnig).

12.7 **Trafod Gwelliannau**
Dim ond un gwelliant sydd i'w gynnig a'i drafod ar y tro ac nid oes r'un gwelliant arall i'w gynnig hyd nes gorffen gyda'r cyfryw welliant, er y gellir rhoi rhybudd o welliannau pellach. A derbyn hyn, fodd bynnag, gall y Cadeirydd ganiatáu trafod ond nid pleidleisio ar ddau welliant neu ragor gyda'i gilydd, os yw'r Cadeirydd o'r farn y byddai hyn yn hwyluso cyflawni'r busnes.

12.8 **Gwelliannau pellach**
Os collir gwelliant gellir cynnig gwelliannau eraill ar y cynnig gwreiddiol. Os yw gwelliant yn cael ei dderbyn bydd yn disodli'r cynnig gwreiddiol a hwnnw yna fydd y cynnig y gellir gwneud gwelliant pellach arno.

12.9 **Tynnu Cynnig neu Welliant yn ôl**
Gall y cynigydd dynnu cynnig neu welliant yn ôl gyda chaniatâd yr eilydd a'r Awdurdod neu'r Pwyllgor, hyn i ddigwydd heb drafodaeth, ac ni all unrhyw Aelod siarad arno ar ôl i'r cynigydd ofyn caniatâd i'w dynnu'n ôl, oni bai fod caniatâd wedi'i wrthod.

12.10 **Hawl i Ymateb**
Mae gan gynigydd yr hawl i ymateb ar derfyn y drafodaeth ar y cynnig, yn syth cyn ei roi i'r bleidlais. Mae'n rhaid cyfyngu'r ymateb yn llwyr i ateb siaradwyr blaenorol ac ni chyflwynir unrhyw ddadleuon newydd i'r drafodaeth. Os cynigir gwelliant, bydd gan gynigydd y cynnig gwreiddiol hefyd hawl i ymateb ar derfyn y drafodaeth ar y gwelliant ac nid yw i siarad fel arall ar y gwelliant. Ni fydd gan gynigydd y gwelliant unrhyw hawl i ymateb i'r drafodaeth ar y gwelliant hwnnw.

12.11 **Cynigion a wneir yn ystod trafodaeth**
Pan fo cynnig dan drafodaeth, ni wneir unrhyw gynnig arall heblaw'r canlynol:

(1) Gwelliannau i'r cynnig

(2) Bod yr Awdurdod neu'r Pwyllgor yn symud ymlaen i'r eitem fusnes nesaf

(3) Bod y cwestiwn yn awr yn cael ei ofyn

(4) Bod y drafodaeth yn awr yn cael ei gohirio

(5) Bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu cau allan

(6) I beidio â gwrando mwyach ar Aelod a enwir neu ei fod ef/hi yn gadael y cyfarfod

12.12 **Cynigion Cau**
Ar ddiwedd anerchiad gan Aelod arall gall Aelod wneud, yn ddisylw, un o'r cynigion canlynol. Os eilir y fath gynnig, ac oni bai fod y Cadeirydd o'r farn bod y mater heb ei drafod yn ddigonol, bydd y drefn fel a ganlyn:

(1) **Cynnig i symud ymlaen i'r eitem fusnes nesaf**
Bydd y Cadeirydd yn caniatáu i gynigydd y cynnig gwreiddiol ymateb a bydd yna'n rhoi'r cynnig i symud ymlaen i'r eitem fusnes nesaf i'r bleidlais. Os derbynnir y cynnig bydd y cynnig gwreiddiol yn methu.

(2) **Cynnig i ofyn y cwestiwn**
Bydd y Cadeirydd yn gyntaf oll yn rhoi'r cynnig i ofyn y cwestiwn i'r bleidlais. Os yw'r cynnig yn cael ei dderbyn bydd y Cadeirydd yn rhoi hawl i gynigydd y cynnig gwreiddiol ymateb cyn rhoi'r cynnig gwreiddiol i'r bleidlais.

(3) **Cynnig i ohirio'r drafodaeth neu'r cyfarfod**
Bydd y Cadeirydd yn rhoi i'r bleidlais y cynnig bod y drafodaeth neu'r cyfarfod yn cael ei ohirio. Os yw'r cynnig yn cael ei dderbyn bydd y cynnig gwreiddiol ac unrhyw fusnes sy'n weddill yn aros fel busnes anghyflawn tan gyfarfod nesaf yr Awdurdod neu'r Pwyllgor.

12.13 **Pwyntiau o Drefn neu Eglurhad Personol**
Gall Aelod siarad ar bwynt o drefn neu i roi eglurhad personol a bydd ganddo/ganddi hawl i gael gwrandawiad ar unwaith, ar yr amod fodd bynnag:

(1) Bod y pwynt o drefn yn ymwneud â thorri Gorchymyn Sefydlog neu ddarpariaeth Statudol yn unig a bydd yr Aelod yn nodi'r cyfryw Orchymyn Sefydlog neu'r ddarpariaeth Statudol a natur y tor-rheol.

(2) Cyfyngir eglurhad personol i ran bwysig o anerchiad blaenorol gan yr Aelod hwnnw sy'n ymddangos iddo ef/hi i fod wedi'i chamddeall.

(3) Nid yw dyfarniad y Cadeirydd ar unrhyw bwynt o drefn neu ar dderbynioldeb eglurhad personol yn agored i drafodaeth.

12.14 **Diddymu Penderfyniad**

(1) Nid oes unrhyw gynnig i'w wneud na gwelliant i'w gynnig i ddiddymu unrhyw benderfyniad gan yr Awdurdod a wnaed o fewn y chwe mis cynt neu benderfyniad i'r un perwyl ag un a wrthodwyd o fewn y cyfnod hwnnw, ond medrir gwneud cynnig o'r fath mewn cyfarfod o'r Awdurdod os

(a) caiff ei argymell gan Bwyllgor; neu
(b) os rhoddir rhybudd o'r cyfryw gynnig gan chwe aelod o'r Awdurdod.

Pan fo'r Awdurdod wedi cael ymadael â'r fath gynnig, nid oes cynnig tebyg i'w wneud o fewn cyfnod o chwe mis ar ôl hynny.

(2) Ni wneir unrhyw gynnig neu welliant i ddiddymu unrhyw benderfyniad gan yr Awdurdod neu Bwyllgor sydd eisoes wedi'i weithredu.

12.15 **Parch i'r Cadeirydd**

Pryd bynnag y bo Cadeirydd yn codi yn ystod trafodaeth neu'n taro'r morthwyl mae'n rhaid i unrhyw Aelod sy'n siarad dewi a bydd yr Awdurdod neu'r Pwyllgor yn dawel.

13.0 **IAITH TRAFODAETH**

13.1 **Statws a Dilysrwydd**

Ym mhob cyfarfod o'r Awdurdod ac mewn unrhyw Bwyllgor

(1) Bydd gan yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg statws a dilysrwydd cyfartal

(2) Bydd gan bob person yr hawl i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg.

13.2 **Cyfieithu ar y Pryd**

Bydd Swyddog y Parc Cenedlaethol yn trefnu cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg (ac o'r Saesneg i'r Gymraeg pan ofynnir am hynny) ym mhob cyfarfod o'r Awdurdod lle mae Aelodau o'r Awdurdod yn bresennol.

13.3 **Dogfennau Dwyieithog**

Mae'n rhaid i bob rhaglen, adroddiad, cofnod a dogfennau eraill yr Awdurdod a gyflwynir i unrhyw gyfarfod o'r Awdurdod, Pwyllgorau, Is-Bwyllgorau, Gweithgorau a'r Paneli fod yn ddwyieithog.

13.4 **Absenoldeb Cyfieithu ar y Pryd**

(1) Yn absenoldeb cyfieithu ar y pryd gall busnes cyfarfod fynd rhagddo ond mae'n rhaid i'r Cadeirydd sicrhau, ar gais unrhyw Aelod, bod union eiriau unrhyw gynnig, gwelliant, cwestiwn, ateb neu bwynt o drefn ac o leiaf prif fyrdwn unrhyw anerchiad neu sylw yn cael eu cyfieithu.

(2) Ni fydd methu'n ddiarwybod â chydymffurfio gyda'r Gorchymyn Sefydlog hwn, neu unrhyw wall diarwybod yn y cyfieithiad, yn peri bod unrhyw benderfyniad yn annilys.

14.0 PLEIDLEISIO

14.1 Trwy Godi Dwylo

Heblaw fel a ddarperir gan y Gorchymyn Sefydlog hwn, bydd y dull o bleidleisio yn digwydd trwy godi dwylo.

14.2 Dim Trafodaeth Bellach

Unwaith y bo'r Cadeirydd wedi gofyn y cwestiwn ni fydd unrhyw drafodaeth bellach arno ac ni chaiff unrhyw Aelod siarad na gofyn cwestiwn.

14.3 Ail neu Bleidlais Fwrw'r Cadeirydd

Os digwydd i'r pleidleisiau fod yn gyfartal bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw y gall ei defnyddio p'un ai iddo bleidleisio eisoes ai peidio.

14.4 Cofnod Personol

(1) Yn syth ar ôl cyfri'r bleidlais gall Aelod ofyn bod cofnod yn cael ei wneud yn y cofnodion o'r modd iddo ef/hi bleidleisio;

(2) Lle na roddir mater neilltuol i'r bleidlais, gall Aelod ofyn bod datganiad personol cryno yn cael ei gynnwys yn y cofnodion.

14.5 Pleidlais Enwol

Ar gais nifer briodol o Aelodau, neu ar gais Swyddog y Parc Cenedlaethol neu ei gynrychiolydd yn y cyfarfod, caiff y bleidlais ei chofnodi yn y cofnodion gan ddangos sut i bob Aelod yn bresennol bleidleisio neu ymatal, yn ôl a ddigwyddodd. Y nifer briodol o Aelodau yw chwech mewn cyfarfod o'r Awdurdod ac mewn Pwyllgor traean o aelodaeth y Pwyllgor hwnnw.

14.6 Pleidlais Gudd ar Benodiadau

Bydd pleidleisio ar ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod neu Bwyllgor neu ar benodi unrhyw Aelod i Bwyllgor neu i gynrychioli'r Awdurdod neu i lenwi unrhyw swydd arall neu ar benodi aelodau o Staff, yn digwydd trwy bleidlais gudd.

14.7 Pleidlais Fwyafrif ar Benodiadau

Lle mae mwy na dau berson wedi'u henwebu ar gyfer swydd wag a lle nad oes mwyafrif o bleidleisiau o blaid un person, bydd enw'r person sydd â'r lleiaf o bleidleisiau yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr a phleidlais arall yn cael ei chymryd, ac yn y blaen, hyd nes bod gan un person y mwyafrif o'r pleidleisiau.

14.8 Amryfal Etholiadau

Mewn amryfal etholiadau, bydd pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer llai o ymgeiswyr na'r nifer o swyddi gweigion yn annilys.

15.0 YMDDYGIAD AFREOLUS - AELODAU

15.1 Os, yn ystod unrhyw gyfarfod o'r Awdurdod neu Bwyllgor, yw'r Cadeirydd o'r farn bod Aelod yn camymddwyn trwy anwybyddu'n barhaus ddyfarniad y Cadeirydd neu trwy ymddwyn yn anghyson, yn amhriodol neu'n annymunol neu
trwy lesteirio busnes y cyfarfod yn fwriadol, gall y Cadeirydd neu unrhyw Aelod arall wneud cynnig i beidio â gwrando mwyach ar yr Aelod a enwir a bydd y cynnig, ar ôl ei eilio, yn cael ei roi gerbron a'i benderfynu heb drafodaeth.

15.2 Os yw'r Aelod a enwir yn parhau i gamymddwyn ar ôl i'r cynnig o dan y paragraff blaenorol gael ei dderbyn gall y Cadeirydd naill ai:

(1) Gynnig bod yr Aelod a enwir yn gadael y cyfarfod, a bod y cynnig hwnnw'n cael ei roi gerbron a'i benderfynu heb ei eilio na'i drafod; neu

(2) Ohirio'r cyfarfod am gyfnod y gwêl y Cadeirydd yn ddoeth.

15.3 Os digwydd aflonyddwch cyffredinol sydd ym marn y Cadeirydd yn peri bod cyflawni'r busnes angenrheidiol yn drefnus yn amhosib, gall y Cadeirydd, heb fod y cwestiwn yn cael ei ofyn, ohirio'r cyfarfod am gyfnod y gwêl yn ddoeth.

16.0 AFLONYDDWCH - AELODAU O'R CYHOEDD

16.1 Os digwydd i aelod o'r cyhoedd darfu ar unrhyw gyfarfod bydd y Cadeirydd yn ei rybuddio ef neu hi. Os yw'r tarfu'n parhau bydd y Cadeirydd yn gorchymyn bod y person yn cael ei hebrwng o'r cyfarfod. Os digwydd aflonyddwch cyffredinol mewn rhan o'r ystafell gyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd bydd y Cadeirydd yn gorchymyn bod y rhan honno'n cael ei chlirio.

16.2 Os digwydd aflonyddwch cyffredinol sydd, ym marn y Cadeirydd, yn peri bod cyflawni'r busnes angenrheidiol yn drefnus yn amhosib, gall y Cadeirydd, heb fod y cwestiwn yn cael ei ofyn, ohirio'r cyfarfod am gyfnod y gwêl yn ddoeth.

17.0 CANFASIO A RHOI GEIRDA

17.1 **Canfasio**
Bydd canfasio Aelodau o'r Awdurdod naill ai'n union neu'n anuniongyrchol yn gwahardd yr ymgeisydd dan sylw o'r swydd. Bydd perwyl y paragraff hwn yn cael ei gynnwys yn ffurflenni cais yr Awdurdod.

17.2 **Cyfeiriadau**
Nid yw Aelod o'r Awdurdod i ofyn am unrhyw benodiad gyda'r Awdurdod ar gyfer unrhyw un ac ni chaiff roi geirda nac ysgrifennu tystlythyr i ymgeisydd am benodiad gyda'r Awdurdod.

18.0 PERTHNASAU AELODAU NEU WEITHWYR

18.1 Bydd ymgeisydd am benodiad gyda'r Awdurdod sy'n gwybod ei fod ef/hi yn perthyn i unrhyw Aelod neu Uwch Swyddog gyda'r Awdurdod yn datgelu'r berthynas honno yn ei chais hi/ef. Bydd unrhyw ymgeisydd sy'n methu â datgelu'r fath berthynas yn agored i'w wahardd o'r penodiad ac, os caiff ei benodi, yn agored i'w ddiswyddo yn ddirybudd.

18.2 Bydd pob Aelod ac Uwch Swyddog o'r Awdurdod yn datgelu i Swyddog y Parc Cenedlaethol unrhyw berthynas a ðyr i fodoli rhyngddo ef/hi ac unrhyw berson a ðyr iddo/iddi fod yn ymgeisydd am benodiad gyda'r Awdurdod.

18.3 Bydd perwyl y Gorchymyn Sefydlog hwn yn cael ei gynnwys ar bob ffurflen gais.

18.4 At bwrpas y Gorchymyn Sefydlog hwn golyga “Uwch Swyddog” unrhyw swyddog a ddynodir felly gan yr Awdurdod a bernir personau i fod yn perthyn os ydynt a gwraig neu gymar neu os yw’r naill neu’r llall, neu briod neu gymar y naill neu’r llall yn fab neu ferch, neu’n ðyr neu wyres neu’n frawd neu chwaer neu’n nai neu nith y llall neu o eiddo priod neu gymar y llall.

19.0 PENODI SWYDDOGION

19.1 Ymgymerir â phenodi swyddogion fel a ganlyn:

(a) **Swydd Swyddog y Parc Cenedlaethol** – Bydd y rhestr fer yn cael ei phenderfynu gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a’r cyfweld a’r penodi yn cael ei wneud gan yr Awdurdod.

(b) **Swyddi Swyddogion Dynodedig** – Bydd y rhestr fer yn cael ei phenderfynu gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a’r cyfweld a’r penodi yn cael ei wneud gan yr Awdurdod.

(c) **Swyddi Penaethiaid Gwasanaeth** – Bydd y rhestr fer, cyfweld a phenodi yn cael ei gyflawni gan Banel yn cynnwys Cadeirydd yr Awdurdod, Cadeirydd Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, Swyddog y Parc Cenedlaethol, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth a’r Pennaeth Personél.

(d) **Swyddi Swyddogion Eraill** – Bydd tynnu rhestr fer, y cyfweld a’r penodi yn cael ei wneud gan Gyfarwyddwr y Gwasanaeth, y Rheolwr Llinell a’r Pennaeth Personél. Gall Swyddog y Parc Cenedlaethol ymuno â’r Panel os yw’n dewis.

19.2 At bwrpas y Gorchmynion Sefydlog:

(a) Cyfeiria “**Swyddi Swyddogion Dynodedig”** at Gyfarwyddwr , Swyddog Monitro a’r Prif Swyddog Cyllid.

(b) Cyfeiria **“Swyddi Penaethiaid Gwasanaeth”** at swyddi sydd wedi eu dynodi yn Benaethiaid Gwasanaeth o fewn yr Awdurdod yn arferol ar raddfa gyflog 10 ac uwchben.”

20.0 DIDDORDEB AELODAU MEWN CONTRACTAU A MATERION ERAILL

20.1 Os oes gan unrhyw Aelod neu ei briod neu gymar unrhyw ddiddordeb ariannol, union neu anuniongyrchol, o fewn ystyr Adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mewn unrhyw gontract, contract arfaethedig neu fater arall, bydd yr Aelod hwnnw yn datgan y cyfryw ddiddordeb ac yn mynd allan o’r cyfarfod tra bod y contract, y contract arfaethedig neu’r mater arall dan ystyriaeth gan yr Awdurdod neu unrhyw Bwyllgor, oni bai:

(1) bod y rhwystr a roddir o dan yr Adran wedi’i godi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru; neu

(2) Bod y contract, y contract arfaethedig neu'r mater arall dan ystyriaeth gan yr Awdurdod neu Bwyllgor fel rhan o adroddiad ac nid yn destun trafod ynddo'i hun.

20.2 Bydd yr Aelodau yn cael eu llywodraethu gan rag-amodau Cod Ymddygiad yr Awdurdod ar gyfer ei Aelodau yn unol ag Adran 50 o Ddeddf Lywodraeth Leol 2000, Gorchymyn Cod Ymddygiad i Aelodau (Model Cod Ymddygiad) (Cymru) 2001.

21.0 SÊL YR AWDURDOD

21.1 **Gofal o'r Sêl**
Cedwir y sêl yng ngofal y Swyddog Priodol.

21.2 **Gosod y Sêl**
Ni osodir sêl yr Awdurdod ar unrhyw ddogfen oni bai ei bod yn ymwneud â thrafodion sydd wedi'u hawdurdodi gan benderfyniad yr Awdurdod neu Bwyllgor y mae'r Awdurdod wedi dirprwyo ei bwerau iddo neu yn unol â phðer dirprwyedig Swyddog y Parc Cenedlaethol.

21.3 **Tystio**
Bydd y sêl yn cael ei thystio gan Swyddog y Parc Cenedlaethol neu swyddog arall a awdurdodwyd yn ysgrifenedig ganddo a gwneir cofnod o bob dogfen a selir a'u rhifo mewn trefn mewn llyfr a gedwir i'r pwrpas a'u dilysu gan y sawl a dystiodd i'r sêl.

22.0 CYFRINACHEDD

22.1 Nid yw unrhyw Aelod neu Swyddog i ddatgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol neu wedi'i heithrio a ddadlennir mewn cyfarfod o'r Awdurdod neu Bwyllgor.

23.0 ATAL RHEOLAU SEFYDLOG

23.1 Yn amodol i'r paragraff dilynol, gellir atal unrhyw Orchymyn Sefydlog mewn perthynas ag unrhyw fusnes yn y cyfarfod lle cynigir atal y Gorchymyn.

23.2 Ni wneir cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn ddirybudd mewn cyfarfod o'r Awdurdod neu Bwyllgor heb fod o leiaf hanner holl aelodaeth yr Awdurdod neu'r Pwyllgor yn bresennol gydag o leiaf dwy ran o dair o'r rhain yn pleidleisio o blaid atal y Gorchymyn.

23.3 Ni chaniateir i'r Gorchymyn Sefydlog hwn nac ychwaith i Orchmynion Sefydlog 11, 13, 14, 17, 18, 20, 22, 24 a 25 gael eu hatal.

24.0 DILEU AC AMRYWIO RHEOLAU SEFYDLOG

24.1 Ni wneir unrhyw drefniadau lle gall unrhyw Bwyllgor neu Swyddog ddileu neu amrywio Rheolau Sefydlog.

24.2 Bydd unrhyw gynnig i ddileu neu amrywio Rheolau Sefydlog, wedi'i gynnig a'i eilio, yn cael ei ohirio tan gyfarfod arferol nesaf yr Awdurdod.

25.0 **DEHONGLI RHEOLAU SEFYDLOG**

25.1 Bydd penderfyniad y Cadeirydd ar bob pwynt o weithdrefn, pwynt o drefn a dehongliad o'r Rheolau Sefydlog yn derfynol ac ni cheir trafodaeth arno.

25.2 Bydd cyfeiriad yn y Rheolau Sefydlog at:

"Cadeirydd" yn cynnwys yr Is-Gadeirydd neu unrhyw berson arall yn llywyddu yn absenoldeb y Cadeirydd.

"Pwyllgor" yn cynnwys Is-Bwyllgor Gweithgor a Phanel (heblaw yn Rheolau Sefydlog 5.5 a 5.6).